

CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYFARFOD:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	14 Rhagfyr 2011
TEITL YR ADRODDIAD:	Adrodd ar y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas a chyhoeddi Cofrestrau Statudol Ar-lein
ADRODDIAD GAN:	Rheolwr y Weth Gorfforaethol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

1. Cyflawni'r broses o ddarparu mynediad ar-lein i'r Gofrestr o Ddiddordebau a Ddatgenir mewn Cyfarfodydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cynnwys yr amserlen ar gyfer gweithredu hyn.
 - 1.1 Y Gofrestr o Ddiddordebau a Ddatgenir mewn Cyfarfodydd - Mae hyn yn dibynnu ar weithredu elfen cofnodion a rhaglenni'r system Modern.Gov newydd sy'n cael ei hadeiladu a'i phrofi gan Dîm y We a'r Tîm Gwasanaethau Pwyllgor. Mae'r Tîm Gwasanaethau Pwyllgor a'r Uned Gyfieithu wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar ddefnyddio'r system newydd ac maent yn awr yn rhoi prawf ar y system gyda chefnogaeth Tîm y We. Bydd yn cael ei gweithredu ymhen y tri mis nesaf.
 - 1.2. Gellir cyhoeddi'r Gofrestr Roddion a Lletygarwch drwy'r system Modern.Gov newydd pan ddaw'n hollol weithredol yn ystod y tri mis nesaf.
 2. Cyflawni'r broses o ddarparu cyfleuster i Aelodau ddiweddarau'n electronig y Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch ar-lein.
 - 2.2 Yn ystod y chwe mis nesaf, bydd modd i Aelodau gael hyfforddiant ar y system Modern.Gov newydd fel y gallant ddiweddarau eu gwybodaeth ar y ddwy gofrestr. Nodwyd mai'r flaenoriaeth gyntaf fydd sicrhau bod modd i'r cyhoedd gael at gofnodion, rhaglenni ac adroddiadau'r Cyngor, fodd bynnag, os ystyrir bod hyn yn flaenoriaeth, gellir gweithredu arno'n gynt.
3. Gwybodaeth gefndir
 - 3.1 System e-ddemocratiaeth yw'r system Modern.Gov a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyhoeddi rhaglenni, cofnodion ac adroddiadau'n uniongyrchol o ddesgiau'r clarcod pwyllgor gan ddarparu llywodraeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a gwneud penderfyniadau mewn modd agored gan arwain at atebolrwydd a chynhwysiad.

3.2 Bydd y system:

- Yn mireinio dyletswyddau gweinyddol gan arwain at lai o oedi neu ddyblygu gwaith sydd, yn ei dro, yn arwain at well effeithlonrwydd
- Yn rheoli gwybodaeth drwy gysylltu blaengynlluniau, eitemau rhaglen, cofnodion a phenderfyniadau ar draws cyfarfodydd a phwyllgorau sy'n golygu y gellir dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym ac yn gywir
- Yn darparu system ddwyieithog gysylltiedig
- Yn darparu calendr cynhwysfawr o gyfarfodydd – gan alluogi'r Cyngor i gynhyrchu calendrau papur a rhai ar y we
- Yn darparu data-bas etholiadau y gellir ei gyhoeddi ar y we
- Yn darparu data-bas aelodau gan gynnwys datganiadau mewn cyfarfodydd, cofrestrau diddordeb, manylion cyswllt a hanes y gellir eu cyhoeddi ar y we. Bydd hefyd yn tracio aelodaeth pwyllgorau a phresenoldeb ynddynt
- Yn darparu amrediad eang o adroddiadau ystadegol
- Yn diogelu cynnwys y mae cyfyngiad arno
- Yn gostwng costau argraffu

3.3 Bydd y system hefyd yn cynnwys elfen **e-ddeisebu ac e-ymgynggori** a fydd yn rhoi sylw i ofynion y comisiynwyr o ran llywodraethu agored a thryloyw. Bydd hyn:

- Yn ehangu cyfranogiad
- Yn sicrhau atebolrwydd
- Yn darparu dulliau sy'n golygu bod gwybodaeth ar gael yn hwylus ac yn hawdd cael ati
- Yn seiliedig ar drigolion yn cael y nifer lleiaf o lofnodion sydd eu hangen i gefnogi deiseb a all wedyn sbarduno dadl ffurfiol yn y cyngor ar y mater